

## NEWID YN YR HINSAWDD ABERTAWE

Mae newid yn yr hinsawdd yn broblem fyd-eang ac mae'n broblem wirioneddol i Abertawe a'i lleoliad arfordirol, felly yn 2019, datganodd y cyngor argyfwng hinsawdd. Mae Cyngor Abertawe eisoes wedi gweithio'n galed i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac mae wedi llwyddo i gyflawni gostyngiad o 55% ers 2010.

Er hynny, hoffem ni fel cyngor wneud mwy ac arwain drwy esiampl. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn annog pawb yn Abertawe i wneud y newidiadau cadarnhaol y mae eu hangen.

### BETH MAE CYNGOR ABERTAWE'N EI WNEUD

Mae gennym darged sefydliadol i sicrhau **Cyngor Abertawe Di-garbon net erbyn 2030**. Mae hyn yn golygu lleihau a gorbwyso allyriadau carbon o weithgareddau ac adeiladau'r cyngor.

Ond nid yw'r hyn y gall y cyngor ei wneud ar ei ben ei hun yn ddigon. I wneud gwahaniaeth go iawn, mae angen i bawb ar draws Abertawe gyfan leihau eu hól-troed carbon. Mae angen i bawb gymryd rhan a gwneud newidiadau. Ein huchelgais yw sicrhau **Abertawe Di-garbon net erbyn 2050**.


Di-garbon net 2030

**Cyngor Abertawe Di-garbon net erbyn 2030**  
Dyma sut bydd Cyngor Abertawe'n lleihau ac yn gorbwyso'r allyriadau carbon o dan ei reolaeth fel sefydliad


Di-garbon net 2050

**Abertawe Di-garbon net erbyn 2050** Dyma sut gellir lleihau a gorbwyso allyriadau Abertawe gyfan, nid yn unig gan y cyngor ond gan breswylwyr, busnesau a phartneriaid y sectorau gwirfoddol a chyhoeddus.

Byddwn yn gwneud hyn trwy sicrhau ymagwedd cyngor cyfan sy'n canolbwyntio ar 8 maes a arweinir gan weithgor.



Byddwn yn gwneud hyn trwy gynllun cyfathrebu a chynnwys i fwyafu nifer y rheini sy'n cymryd rhan ar draws Abertawe er mwyn datblygu strategaeth newid yn yr hinsawdd drosgynnol effeithiol.



## 10 prif weithred Cyngor Abertawe

2030

*I gyrraedd sefyllfa di-garbon net erbyn 2030, mae angen i ni leihau neu orbwysu cyfanswm presennol ein hallyriadau, sef 27,500 tCO<sub>2</sub>e yn 2019/20*

1

Byddwn yn ehangu ein cerbydlu o geir gwyrdd, a fydd yn lleihau allyriadau ein cerbydlu o 5% bob blwyddyn. Bydd hyn yn arbed 2,350 t/CO<sub>2</sub>e.

2

Rydym yn gosod paneli solar a storfeydd batri yn ein stoc tai, a all arwain at filiau ynni rhatach i'n tenantiaid a gorbwysu allyriadau carbon.

3

Byddwn yn lleihau milltired cerbydau nad ydynt yn eiddo i'r cyngor trwy leihau faint y mae staff yn teithio a datblygu cynllun ceir cronfa/clwb ceir gwell a chysylltiadau â chludiant cyhoeddus. Gallai hyn leihau allyriadau o 50% ac arbed 300 t/CO<sub>2</sub>e

4

Bydd ffermydd solar a phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill yn helpu i orbwysu allyriadau carbon. Cadarnhawyd un cynllun a fydd yn gorbwysu oddeutu 960 t/CO<sub>2</sub>e y flwyddyn.

5

Byddwn yn gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau presennol y cyngor drwy ddefnyddio mentrau'r Llywodraeth.

6

Byddwn yn cynyddu nifer y coed ac yn gwella mesurau eraill fel rhan o'n cynllun bioamrywiaeth, a fydd yn gorbwysu allyriadau carbon.

7

Byddwn yn adeiladau a chodi ysgolion newydd ac adeiladau dinesig yn y dyfodol i gyflawni safonau di-garbon net. Bydd yr effaith gyfunol o wneud hyn ac ailosod adeiladau hyn yn lleihau allyriadau o 20% sy'n hafal â 4000 t/CO<sub>2</sub>e.

8

Byddwn yn symud datblygiad Ynys Ynni'r Ddraig yn ei flaen, a fyddai'n cyflwyno un o'r prosiectau ynni gwyrdd integredig mwyaf yn y byd a fydd, **o bosib, yn arbed 94,913m t/CO<sub>2</sub>e o allyriadau carbon y flwyddyn.**

9

Gellir gwneud arbedion o ran goleuadau stryd trwy gyflwyno technoleg newydd, a gallai hyn gyflwyno arbedion o oddeutu 20% o bosib dros y 10 mlynedd nesaf - 440 t/CO<sub>2</sub>e.

10

Mae Cyngor Abertawe'n prynu ei holl drydan o ffynonellau adnewyddadwy, a chaiff hyn ei ystyried yn ein targed gorbwysu allyriadau cyffredinol. Yn ogystal, rydym yn ceisio prynu "nwy gwyrdd" yn unig i wella ein heffaith ar yr hinsawdd.

### BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF?

#### Siarter Hinsawdd Cyngor Abertawe

Bydd Arweinydd Cyngor Abertawe'n llofnodi Siarter Newid yn yr Hinsawdd. Bydd hwn yn nodi ein hymrwymiad i greu cyngor di-garbon net erbyn 2030.

Gofynnwn i'n partneriaid ymuno â ni wrth lofnodi hwn ac i bobl ddangos eu cefnogaeth i Abertawe di-garbon net.

Bydd y broses o ddod yn ddinas di-garbon net yn heriol ac yn cymryd amser. Ond os bydd pawb yn chwarae eu rhan, gallwn wneud gwahaniaeth gyda'n gilydd!



Cyngor **Abertawe**  
Swansea Council

Cymerwch ran yn [www.abertawe.gov.uk/newidynyrhinsawdd](http://www.abertawe.gov.uk/newidynyrhinsawdd)